# SL(5)743 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliad 5 o Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008, fel bod y cyfnod deiliadaeth dros dro sy'n ofynnol cyn cael cyfnod dilynol o Ryddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn cael ei ymestyn. Mae'r cyfnod yn cael ei ymestyn o chwe wythnos i 26 wythnos.

Diben y polisi yw lleihau modd tra hysbys o gam-drin y cyfnod o chwe wythnos gan bobl ffuantus, er mwyn hawlio cylchoedd o ryddhad ardrethi dro ar ôl tro, sydd yn groes i ddiben polisi'r cynllun rhyddhad.

Diben y cyfnod o chwe wythnos oedd sicrhau nad oes unrhyw anfantais i berchnogion sy'n gosod eiddo'n rheolaidd i ddeiliaid tymor byr dilys. Fodd bynnag, mae yna dystiolaeth helaeth bod y cyfnod o chwe wythnos yn cael ei gamddefnyddio i hawlio cylchoedd parhaus o Ryddhad Ardrethi Eiddo Gwag. Mae'r cyfnod o ddeiliadaeth dros dro yn aml yn un artiffisial a chynlluniedig, gydag enghreifftiau o flychau cardbord, paledi, posteri neu drosglwyddydd Bluetooth yn cael eu storio mewn eiddo sydd fel arall yn wag. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o'r farn, trwy fynnu cyfnod meddiannaeth o 26 wythnos, lle telir cyfraddau llawn, na fyddai'r trefniadau artiffisial hyn yn cael eu cymell.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Er eu bod yn cael eu gosod nawr, nid yw'r Rheoliadau hyn yn dod i rym tan fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

*"The Regulations have a commencement date of 1 April 2022 to allow time for ratepayers, local authorities and other stakeholders to prepare for changes."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**15 Chwefror 2021**